

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

333 - Beirniadaeth Barddoniaeth dan 25 oed

(Cerdd rydd / benrydd)

Beirniad: Eifion Lloyd Jones

Testun amserol oedd yn rhoi digon o gyfle, o'r amlwg i'r gwahanol a'r gwreiddiol. Trueni, felly, mai dim ond tri a fentrodd.

TRYDYDD - Morus Jones

'Bywyd Bwthyn' yn destun, sef cyfres o 7 o gwpledi'n odli. 5 o'r 7 yn odli'n unsill ond 2 ddim (*cwmpas/blas, Nghymru/mi*) sy'n tarfu ar y rythm.

Y cynnwys yn ymddangos yn hen ffasiwn, ond eto'n creu sawl delwedd hyfryd. Cwpledi'r hanner cyntaf sydd fwyaf effeithiol. Dim digon o newydd-deb yn y dweud.

AIL- Tegwen Bruce-Deans

Dau bennill penrhydd yn cymharu dyddiau clo'r Covid â'r llacio araf dilynol. Cyfres o ddelweddau effeithiol am y caethiwed gynt...

*dyddiau troi cysur yn gyffur
yng ngweddillion gwaelod panad*

Ond braidd yn ddryslyd yw ystyr...

treigl y dderwen ychydig finiocach,

Trueni, hefyd, am ambell dreiglo di-angen...

anadl wrach, awen fardd

Ond y mae yma ymgais deg i gyferbynnu'r ddoe gofidus gyda'r heddiw gobeithiol.

CYNTAF - Tesni Peers

Cerdd benrhydd am aelod o'r teulu a fu farw'n ddi-rybudd. Bron fod yma stori fer wrth i'r bardd greu awyrgylch annifyr ond llwyddiannus. Er yn rhyddieithiol lafar, mae'r agoriad yn effeithiol...

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Deutha fi, ydy o'n well ar yr 'ochr arall'?

Ac mae sawl llun yn afaelgar...

yn hangofera'n amyneddgar

A'r stori fer, neu'r ddrama, yn dod i ben yn amwys, gyda sawl ystyr i'r diwedd glo...

Cysga'n dawel rŵan.

Trueni fod yma ambell wall iaith a chystrawen yn ail hanner y gerdd, yn hytrach na llafar naturiol...

i ni ddau, tra gwranddo i'r tywod llithro

Ond y cyfanwaith yn argyhoeddi fod yma fardd yn teimlo ac yn gallu cyfleu'r teimladau yn effeithiol a llwyddiannus.